iwan@iwanpiano

(dyfalbarhad / penderfyniad / dysgu gwrando)

Mrs Parry, Station House; Glenys Jones; Grês Pritchard a Haf Morris – y merched hyn yn eu tro oedd y rhai cyntaf i ddylanwadu a dysgu yr Iwan ifanc yn ei filltir sgwâr yn Amlwch, Ynys Môn. Wedi cyfnod llwyddiannus dros ben yn ysgolion Amlwch, cynradd ac uwchradd, trodd ei olygon tuag at Goleg Balliol, Rhydychen, ac wedyn y Coleg Cerdd Brenhinol, ac mae'r gweddill yn hanes. O'r cychwyn cyntaf roedd Iwan wedi dangos cryn fedr ar drin y piano gyda'i fam a'i nain yn athrawon dysgu piano. Yn ôl Iwan, "Fe es i at y piano'n ifanc iawn, cychwyn ar wersi piano'n bump oed, ac yno 'dwi 'di bod ers hynny." Ond gyda'i dad, John Chemist, yn fferyllydd y fro y penderfynodd yr Iwan ifanc ei fod am astudio gwyddoniaeth yn y chweched er mwyn cael mynd yn feddyg, ond meddai, "cerddoriaeth wnaeth ennill ar ddiwedd y dydd".

Mae Iwan bellach yn adnabyddus ledled y byd cerddorol. Mae wedi ymddangos fel unawdydd 'consierto' gyda Cherddorfa Ffilharmonig Radio Leipzig, Cerddorfa Symffoni Turin ynghyd â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Mae cerddorion fel Alun Hoddinott, John Metcalf, John Pickard, Pwyll ap Siôn a'r cyfansoddwr Americanaidd Lowell Liebermann wedi cyfansoddi sawl gwaith 'unawd' yn arbennig iddo. Mae ganddo hefyd brofiad eang o gerddoriaeth siambr; ym 1996 rhoddodd ei "ddebut" yn Nhŷ Opera Sydney, Awstralia, i gynulleidfa lawn mewn cyngerdd o weithiau siambr Maurice Ravel. Bydd hefyd yn darlledu'n gyson ar Classic FM a Radio 3. Mae wedi rhoi datganiadau o weithiau piano gan Mendelsshon, Brahms, Liszt a Poulenc ar Sianel 4 ac wedi perfformio gweithiau i'r piano a cherddorfa gan Mozart a Chopin gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn fyw ar radio a theledu. Hawdd iawn fyddai mynd ymlaen ac ymlaen i restru ei ragoriaethau a'i gampau ond yr hyn sydd yn dod i'r amlwg yn ei waith yw ei ddyhead i hybu cerddoriaeth newydd.

Tybed a oes gan Iwan ddiddordebau eraill? Mae wrth ei fodd yn cyfarfod â phobl, yn ysgrifennu, darllen a choginio. Ond efallai yr hyn fyddai'n dipyn o syndod i'w gymheiriaid a'i athrawon addysg gorfforol yn Ysgol Thomas Jones, Amlwch, ydi ei ddiléit mewn tipyn o waith caled o gwmpas y tŷ, yr hyn y mae'n ei alw'n "cardiovascular excercise". Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun roedd yn

casáu ac yn osgoi gwersi ymarfer corff am ei fywyd yn yr ysgol ond, erbyn hyn, ac yntau yn ei bedwar degau hwyr, mae ychydig o waith corfforol yn llesol i'r corff.

Er mai yn yr Eglwys Bresbyteraidd yn Amlwch (Y Capel Mawr) y cafodd ei fagu, erbyn hyn y mae dylanwad Coleg Balliol a'r Ysgol Gerdd yn drwm arno ac mae wedi cael blas ar litwrgi'r Eglwys Anglicanaidd, "er fod sawl peth yn fy mhoeni am sefyllfa'r Eglwys heddiw".

A'r dyfodol? "Mae'n rhaid ymarfer a darparu darnau i'w perfformio am oriau maith." Efallai fod y sawl sydd wedi gweld Iwan wrth y piano yn dweud nad oes angen gwaith corfforol arno o gwbl gan fod ei holl gorff ac enaid yn rhan anhepgor o bob perfformiad.

Adnod: "Y mae angen dyfalbarhad arnoch i gyflawni ewyllys Duw." Hebreaid 10:36

Gweddi: Helpa fi, O Dduw, i ddal ati ac i ddyfalbarhau bob amser, yn enwedig pan fo pethau'n dywyll o'm cwmpas. Amen.

Trafod:

- Tybed a oes modd i gerddor roi gormod o bwys ar ymarfer a darparu?
- Sut fyddech chi'n mynd ati i ddadansoddi bywyd cerddor fel Iwan?